# Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 07 Mai 2002

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 29 Ebrill 2002

**NDM1041 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cymeradwyo'r "*National Black, Minority Ethnic Housing Action Plan for Wales*" - a e-bostwyd at aelodau ar 29 Ebrill 2002;

2. Yn cefnogi'r camau a nodir yn y Cynllun i helpu i oresgyn y gwahaniaethu a'r anfanteision a brofir gan gymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru; ac

3. Yn cydnabod y bydd gofyn i bob lefel o lywodraeth, pob sector, sefydliad ac unigolyn weithio gyda'i gilydd os am gyflwyno a datblygu'r Cynllun Gweithredu.

## Cynnig a gyflwynwyd ar 30 Ebrill 2002

**Dadl Plaid Leiafrifol**

**NDM1043 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar y Llywodraeth i:

1. agor trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â fformiwla ariannu decach ar gyfer y Cynulliad, a honno wedi ei seilio ar angen;

2. sicrhau bod cyfran y symiau sy'n ganlyniad i'r cynnydd yn y gwariant ar iechyd, a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddiweddar, yn gyfrannol yr un peth yng Nghymru â’r cynnydd yn Lloegr, gan gydnabod y byddai fformiwla bresennol Barnett yn atal y Cynulliad Cenedlaethol rhag cyflawni'r un gwelliannau yn y GIG yng Nghymru heb leihau’n ddifrifol y gyllideb ar gyfer blaenoriaethau eraill y Cynulliad;

3. pwyso am gynnydd yn y cyllid 'uwchlaw Barnett' er mwyn talu am y cynnydd mawr yn lefelau’r Arian Ewropeaidd ac arian cyfatebol y sector cyhoeddus, fydd ei angen ar ôl 2003 os ydym am osgoi dadneilltuo.

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 1 Mai 2002**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1041**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu Pwynt 2 a rhoi:

Yn cydnabod bod gwahaniaethu ac anoddefgarwch yn wrthun i'n cymdeithas ac yn cytuno i fynd ati i hyrwyddo mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o'r holl ddiwylliannau sy'n cael eu cynrychioli yng Nghymru, yn ein hysgolion, ein gweithleoedd ac yn ein gweithgareddau hamdden, ac wrth lywodraethu ein gwlad.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd:

Yn sicrhau bod digon o ddeunydd cyhoeddusrwydd perthnasol ar gael, ynghyd â chanolfannau cynghori a all ateb cwestiynau a gweithredu pan fydd angen.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu 'cymeradwyo'r' a rhoi 'nodi'r' yn ei le

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi:

Yn cydnabod y bydd angen rhoi cyfle digonol i bawb gael hyfforddiant, ynghyd ag adnoddau ychwanegol, er mwyn sicrhau y gall pob lefel o lywodraeth, pob sector, sefydliad ac unigolyn weithio gyda'i gilydd i ddarparu a datblygu'r Cynllun Gweithredu.

**Gwelliannau a gyflwynwyd 2 Mai 2002**

**NDM1043**

Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);

Dileu pwyntiau 2 a 3.